**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

**C. B. Jones**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Y Pafiliynau**
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**
**Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms. Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 28 Mawrth 2018** am **5.00pm.**

## AGENDA

| | | Tudalennau |
|---|---|---|
| | **DATGAN BUDDIANT** | |
| **1** | Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Côd Ymddygiad<br><br>1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a<br>2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael. | |
| **2** | **CYHOEDDIADAU** | |
| **3** | **COFNODION** | |
| | Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2018, yn rhai cywir. | **1 – 14** |
| **4** | **LLYWODRAETH AGORED:** | |
| **5** | **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2 | |
| | Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu**.** | |

**6 CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**

(a) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J.Williams i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan)**

“A wnewch chi amlinellu pa brosesau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer cyflwyno mesurau rheoli traffig, gan gynnwys cyfyngiadau parcio yng nghanol trefi ac ardaloedd preswyl ar draws Rhondda Cynon Taf? "

(b) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Morgans i Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C.Leyshon)**

"A fyddai'r Aelod o'r Cabinet n fodlon darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar Fenter Gofal Plant Am Ddim Llywodraeth Cymru?

(c) **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple i’r Aelod o’r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings)**

“A fyddai'r Aelod o'r Cabinet gystal â gwneud datganiad ar gyfleusterau hamdden ledled Rhondda Cynon Taf?"

(ch) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A fyddwch gystal â gwneud datganiad ar symudiad y traffig yn Nwyrain Aberpennar?”

(d) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G.R.Davies i’r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

A fyddwch gystal â gwneud datganiad am ailgylchu yn Rhondda Cynon Taf?"
"A fyddai'r Arweinydd yn fodlon darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar fesurau diogelwch y ffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol?"

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

**7 Bargen Ddinesig Rhanbarthol Caerdydd**

Trafod adroddiad y Prif Weithredwr. **15 – 82**

**8 Rheoli'r Trysorlys**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen **83 – 104**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **9** | **Cynigion Rheoli Dogfennau** | | |
| | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr - Y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus | **105 – 110** | |
| **10** | **Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod Annibynnol Newydd** | | |
| | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol | **111 –114** | |
| **11** | **Datganiad y Cyngor ar Bolisi Cyflogau** | | |
| | Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol | **115 –126** | |
| **12** | **Pecynnau Ymddeol yn Gynnar a Diswyddo Prif Swyddogion** | | |
| | Trafod adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr materion Adnoddau Dynol. | **127-132** | |
| **13** | **Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru - "Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni Dros ein Pobl"** | | |
| | Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol a Chyfarwyddwr y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus. | **133-204** | |
| **14** | **Newid i Aelodaeth y Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau Gweithwyr / Apeliadau Prif Swyddogion** | | |
| | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol | **205 - 206** | |
| **15** | **Rhybuddion o Gynigion** | | |

**(a)** Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi’i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A.Morgan, M.Webber, L.M.Adams, R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, J.Brencher, A.Calvert, G.Caple, A.Crimmings, A.Davies-Jones, L.De Vet, J.Elliiott, S.Evans, M.Fidler Jones, M.Forey, A.Fox, E.George, M.Grifiths, J.Harries, G.Holmes, G.Hopkins, G.W.Hughes, G.Jones, R.Lewis, W.Lewis, C.Leyshon, S.Morgans, M.Norris, D.Owen-Jones, S.Pickering, S.Powderhill, S.Powell, S.Rees, A.Roberts, J.Rosser, R.Smith, G.Stacey, M.Tegg, G.Thomas, W.Treeby, R.K.Turner, D.Williams, T.Williams, C.J.Willis a R.Yeo:-:-

"Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i gefnogi'r Ymrwymiad Ynni Glân UK100, ac yn cymryd camau priodol er mwyn trosglwyddo tuag at fod yn Awdurdod sy'n gwbl gyfrifol yn amgylcheddol erbyn 2050.

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod:

- Yr ymrwymiadau hanesyddol a wnaed yng Nghynhadledd 2015 y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd ym Mharis tuag at ddyfodol ynni adnewyddadwy;
- Ein cyfrifoldeb ni i helpu sicrhau dyfodol sy'n amgylcheddol gynaliadwy i'n trigolion ac mewn perthynas ag effeithiau byd-eang gan y newid yn yr hinsawdd a wnaed gan ddyn;
- Bod llygredd aer yn cynyddu'r risg o ganser yr ysgyfaint, a gall waethygu'r cyflyrau'r ysgyfaint sy'n bodoli eisoes ac atal datblygiad ysgyfaint plant;
- Dydy gweithredu yn yr hinsawdd ddim yn atalydd twf economaidd ond yn hytrach yn ffactor sy'n ei achosi. Ar ben hynny, bod manteision ychwanegol o ddatblygu diwydiannau gwyrdd yn cynnwys y potensial i fanteisio ar amcanion y Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy greu cyflogaeth fedrus â thâl da yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol; gwell iechyd a lles a chynilion ariannol i drigolion a busnesau yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Yng ngoleuni hyn, felly, mae'r cyngor yma'n penderfynu:

- Cydweddu uchelgeisiau'r Cytundeb UK100 trwy addo i gyflawni ynni glân o 100% ar draws ystod lawn o swyddogaethau Cyngor Rhondda Cynon Taf erbyn 2050;
- Cydweithio â'n trigolion a'n cymuned fusnes i gyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau a wneir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn Uwchgynhadledd Paris 2015;
- Troi'r ymrwymiadau yma i i fod yn realiti trwy ddatblygu trywydd i ddyfodol cynaliadwy, cydweithio â busnesau lleol, cymunedau addysgol a phreswyl fel rhan o ymagwedd integredig tuag at ddyfodol cynaliadwy ar y cyd"

**(b)** Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol J. James, L. Hooper, M. Diamond a K. L. Jones:-

Mae'r Cyngor yma'n anghytuno'n gryf â phenderfyniad Llywodraeth Lafur Cymru, gyda chefnogaeth Plaid Cymru, i gael gwared ar y cynllun Hawl i Brynu ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru.

Ers ei gyflwyno gan y Llywodraeth Geidwadol ar y pryd ym 1981, mae'r cynllun Hawl i Brynu wedi caniatáu oddeutu 130,000 o bobl brynu eu cartrefi cyngor / cymdeithasau tai ledled Cymru. Nid dim ond rhoi'r sefydlogrwydd a'r sicrwydd sy'n gysylltiedig â pherchen ar eu cartref eu hunain i filoedd o deuluoedd y mae'r

cynllun yma, ond mae hefyd wedi bod yn gyfrwng symudedd cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yma'n credu, beth bynnag fo'ch cefndir neu ble rydych chi'n byw, dylech chi gael y cyfle i berchen ar eich cartref eich hun. Rydyn ni'n gofidio'r cam hwn gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos ei dyheadau isel ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru gyfan."

**16** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**

**At: Bob Aelod o'r Cyngor**
**21 Mawrth 2018**